



## Arolwg Omnibws yr Oedolion, 2019

Mynychu yn y celfyddydau



Cyngor Celfyddydau Cymru  
Arts Council of Wales



Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn darparu gwybodaeth mewn print bras a braille, ynghyd â fformatau sain a Hawdd eu Deall, ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn hefyd yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw am Gymraeg neu Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.



Clawr: Aberhenfelen, Theatr Bara Caws (llun: llunia Cwmni)


## Cynnwys

|   |    |
|---|----|
| Mynychu'r sinema.....   | 4  |
| Mynychu sioeau cerdd.....   | 8  |
| Mynychu cerddoriaeth fyw arall.....                               | 11 |
| Mynychu carnifalau a chelfyddydau'r stryd .....                   | 15 |
| Mynychu'r celfyddydau gweledol a/neu grefftau .....               | 19 |
| Mynychu dramâu .....  | 23 |
| Mynychu gwyliau celfyddydol.....                                  | 27 |
| Cerddoriaeth werin, y byd a thraddodiadol.....                    | 32 |
| Mynychu cerddoriaeth glasurol.....                                | 36 |
| Mynychu jas.....  | 40 |
| Mynychu digwyddiadau llenyddol .....                              | 45 |
| Mynychu dawns gyfoes .....  | 49 |
| Mynychu'r opera.....  | 53 |
| Mynychu'r bale.....   | 57 |
| Atodiad 1 – Diffiniadau o safleoedd economaidd-gymdeithasol ..... | 62 |
| Atodiad 2 – Cwestiynau Arolwg 2019 .....                          | 63 |

## Mynychu'r sinema

Cododd lefelau mynychu'r sinema yn 2019 gan 3.7 pwynt canran o 56.3% yn 2018 i 60% o oedolion a oedd yn mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Mae hyn yn parhau i gynyddu er 2016 pan aeth 51% o oedolion i'r sinema o leiaf unwaith y flwyddyn.

Mynychu'r sinema 2009-2019 (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (o leiaf 1,000 yn y don)

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru 2009-2019


## Mynychu'r sinema yn ôl rhywedd

Aeth rhagor o fenywod, 62%, na dynion, 58%, i'r sinema o leiaf unwaith y flwyddyn yn 2019. Er y bu lefelau mynychu uwch o hyd ymhlith menywod er 2017, mae cynnydd o bron 10 pwynt canran yn nifer y menywod er 2017 pan fynychodd 52.7%. Mae mynychu dynion wedi cynyddu 8 pwynt canran dros yr un cyfnod, o 50% yn 2017 i 58% yn 2019.

## Mynychu'r sinema yn ôl dosbarth cymdeithasol

Gellir dod o hyd i lefelau uwch o fynychu i'r sinema ymhlith y grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch yn 2019 gyda 68.7% o'r grŵp ABC1 yn mynychu sinema unwaith y flwyddyn neu'n amlach o gymharu â 50.7% o'r grŵp C2DE, bwlch o 18 pwynt canran.

Mynychu'r sinema yn ôl dosbarth cymdeithasol (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

## Mynychu'r sinema yn ôl oed

Mae perthynas rhwng lefelau mynychu'r sinema a grŵp oed gyda phobl iau yn mynychu'r sinema'n fwy na phobl hŷn yn 2019. Roedd ychydig dros ddwbl y rhai 16-24 oed, 81.1%, yn mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach o gymharu â'r rhai dros 65 oed, 36%. Mae hyn yn parhau â phatrwm y flwyddyn flaenorol pan fynychodd 70.4% o'r rhai 16-24 oed unwaith y flwyddyn o gymharu â 34% o'r rhai dros 65 oed.

## Mynychu'r sinema yn ôl oed yn 2019 (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

## Mynychu'r sinema yn ôl rhanbarth

Mae dadansoddiad rhanbarthol yn dangos bod y lefelau mynychu uchaf i'r sinema yn y De-ddwyrain a Chanolbarth y De yn 2019, gyda 63% o oedolion yn y ddau ranbarth yn mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Roedd y lefelau isaf yn y Gogledd gydag ychydig dros hanner, 55.4%, yn mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach.

Tabl 1: mynychu'r sinema yn ôl rhanbarth y Cyngor (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)

|                        | 2019  | 2018  | 2017  |
|------------------------|-------|-------|-------|
| <i>Gogledd</i>         | 55.4% | 53.7% | 51.4% |
| <i>De-orllewin</i>     | 57.6% | 54.7% | 50.8% |
| <i>Canolbarth y De</i> | 63.5% | 59.9% | 52.1% |
| <i>De-ddwyrain</i>     | 63.8% | 56.4% | 51.1% |

## Mynychu'r sinema yn ôl y Gymraeg

Roedd siaradwyr Cymraeg yn mynychu'r celfyddydau'n fwy na'r cyfartaledd yn 2019, gyda 65.1% yn mynychu o leiaf unwaith y flwyddyn o gymharu â 58.5% o'r di-Gymraeg. Roedd yn batrwm mynychu tebyg i'r ddwy flynedd flaenorol.

## Dadansoddiad pellach o'r Gymraeg

Mae'r tabl isod yn amlinellu'n fanylach fynychu'r sinema yn ôl iaith.


Tabl 2: mynychu i'r sinema yn ôl gallu yn y Gymraeg (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)

|                                    | 2019  | 2018  | 2017  |
|------------------------------------|-------|-------|-------|
| Siaradwyr<br>Cymraeg rhugl         | 59.4% | 64.7% | 53.3% |
| Ddim yn rhugl                      | 70.8% | 60.5% | 62.8% |
| Di-Gymraeg                         | 58.5% | 54.5% | 48.9% |
| Siaradwyr<br>Cymraeg<br>(cyfanswm) | 65.1% | 62.5% | 58.9% |
| Cyfanswm                           | 60.0% | 56.3% | 51.4% |

## Mynychu sioeau cerdd

Mynychodd ychydig dros chwarter yr oedolion, 26.5%, sioeau cerdd yn 2019, cynnydd o 2.6 pwynt canran o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol a'r lefelau uchaf er 2009.

### Mynychu sioeau cerdd 2009-2019 (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: pob oedolyn (o leiaf 1,000 yn y don)

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru 2009-2019

## Mynychu sioeau cerdd yn ôl rhywedd

Dros y tair blynedd diwethaf mae rhagor o fenywod na dynion wedi mynychu sioeau cerdd, gydag ychydig dros 10 pwynt canran yn gwahaniaethu bob blwyddyn rhwng y ddau grŵp. Yn 2019, mynychodd 32.1% o fenywod sioeau cerdd o leiaf unwaith y flwyddyn o gymharu ag 20.7% o ddynion.

### Mynychu sioeau cerdd yn ôl rhywedd (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019



## Mynychu sioeau cerdd yn ôl dosbarth cymdeithasol


Roedd bwlch o 12.3 pwynt canran rhwng y grwpiau economaidd-gymdeithasol uchaf ac isaf o ran eu lefelau mynychu sioeau cerdd yn 2019. Er bod 32.5% o'r grŵp ABC1 yn mynychu, mynychodd 20.2% yn y grŵp C2DE. Mae'r bwlch rhwng y ddau grŵp wedi aros tua'r un lefel dros y tair blynedd diwethaf gyda'r grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch yn mynychu'n amlach ym mhob un o'r tair blynedd.

Tabl 3: mynychu sioeau cerdd yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol

|      | 2019  | 2018  | 2017  |
|------|-------|-------|-------|
| ABC1 | 32.5% | 29.4% | 30.6% |
| C2DE | 20.2% | 18.7% | 17.6% |

## Mynychu sioeau cerdd yn ôl rhanbarth

Mynychu sioeau cerdd yn ôl rhanbarth (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Roedd mynychu sioeau cerdd yn ôl rhanbarth yn amrywio rhwng 23% a 29%. Canolbarth y De oedd â'r lefelau mynychu uchaf, 29.7%, ac yna'r De-orllewin gyda 27.2%. Gwelwyd y lefelau isaf yn y Gogledd gydag ychydig dan chwarter, 23.1% yn mynychu o leiaf unwaith y flwyddyn. Yn y flwyddyn flaenorol y Gogledd oedd â'r lefelau mynychu uchaf, 28.7%, felly bu gostyngiad o 5.6 pwynt canran yn yr ardal yna yn y flwyddyn.

Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

## Mynychu sioeau cerdd yn ôl oed

### Mynychu sioeau cerdd yn ôl oed (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Mynychu sioeau cerdd yn ôl oed (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)


Mynychodd bron 3 o bob 10 (29.9%) o bobl ifanc 16-24 oed sioeau cerdd unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn 2019, cynnydd o ychydig dros 15 pwynt canran o'r ddwy flynedd flaenorol, a'r mynychu uchaf ar draws pob grŵp oed. Yn 2018, mynychodd 14.3% o bobl ifanc 16-24 oed sioeau cerdd. Roedd y lefelau mynychu isaf ymhlith y rhai 25-34 oed yn 2019 gyda 23% o'r grŵp oed yn mynychu. Mynychodd chwarter y rhai dros 65 oed o leiaf unwaith y flwyddyn sef yr un lefel â 2018.

Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

## Mynychu sioeau cerdd yn ôl y Gymraeg

### Mynychu sioeau cerdd yn ôl gallu yn y Gymraeg (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Mynychodd lefelau uwch o'r rhai â rhywfaint o allu yn y Gymraeg sioeau cerdd yn 2019, 34.1%, o gymharu â'r di-Gymraeg, 24.2%. Mae hyn wedi dilyn yr un patrwm â'r ddwy flynedd flaenorol.

Mae'r siart yn dangos bod y rhai a oedd yn siarad Cymraeg yn rhugl yn fwy tebygol o fynychu sioeau cerdd na siaradwyr Cymraeg nad oeddynt yn rhugl yn 2019, 37.3% o gymharu â 30.9%. Roedd hyn wedi newid o'r flwyddyn flaenorol pan mai siaradwyr Cymraeg nad oeddynt yn rhugl oedd yn mynychu'n amlach, 33.4% o gymharu ag 20.7%.


Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

## Mynychu cerddoriaeth fyw arall

Mynychodd hanner yr oedolion, 49.9%, gerddoriaeth fyw arall yn 2019 gan barhau â'r cynnydd cyson yn lefelau mynychu'r digwyddiadau yma er 2015, pan fynychodd 40.1%. Cyn 2015, roedd amllder mynychu cerddoriaeth fyw arall wedi amrywio rhwng 35.7% a 43.4%.

### Mynychu cerddoriaeth fyw arall (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (o leiaf 1,000 yn y don)

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru 2009-2019

## Mynychu cerddoriaeth fyw arall yn ôl rhywedd

Yn 2019 gwelwyd lefelau mynychu ychydig yn uwch ymhlith dynion na menywod i gerddoriaeth fyw arall, 51.3% o gymharu â 48.6%. Yn y flwyddyn flaenorol, mynychodd 46% o ddynion a menywod gerddoriaeth fyw arall.


Tabl 4: mynychu cerddoriaeth fyw arall yn ôl rhywedd (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach).

|           | 2019  | 2018  | 2017  |
|-----------|-------|-------|-------|
| Gwrywaidd | 51.3% | 46.9% | 42.5% |
| Benywaidd | 48.6% | 46.3% | 46.0% |

## Mynychu cerddoriaeth fyw arall yn ôl dosbarth cymdeithasol

Mynychodd dros hanner y rhai yn y grwpiau cymdeithasol uwch ABC1, 56.8%, gerddoriaeth fyw arall yn 2019, mae hyn ychydig yn uwch na'r lefelau mynychu ar gyfartaledd. Mae lefelau mynychu gan y rhai yn y grwpiau is, C2DE, wedi aros ychydig dan y cyfartaledd, 42.5%, gan fynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Mae'r bwlch rhwng y ddau grŵp wedi cynyddu o 10.2 pwynt canran i 14.3 pwynt canran.

### Mynychu cerddoriaeth fyw arall yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

## Mynychu cerddoriaeth fyw arall yn ôl oed

### Mynychu cerddoriaeth fyw arall yn ôl oed (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Mynychu cerddoriaeth fyw arall yn ôl oed (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)


Roedd y lefelau mynychu uchaf i gerddoriaeth fyw arall yn 2019 ymhlith y rhai 35-44 oed, 66.8%, gyda'r rhai 16-24 oed yn agos, 65.7%. Bu cynnydd yn lefelau mynychu ymhlith rhai 35-44 oed o'r flwyddyn flaenorol, o 13.1 pwynt canran.

Parhaodd y lefelau isaf i fod ymhlith y grŵp dros 65 oed, gyda chwarter, 25.2%, yn mynychu yn 2019, gostyngiad o 5 pwynt canran er 2018.

Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002) Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

## Mynychu cerddoriaeth fyw arall yn ôl rhanbarth

### Mynychu cerddoriaeth fyw arall yn ôl rhanbarth (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Cafwyd hyd i'r lefelau mynychu uchaf i gerddoriaeth fyw arall yng Nghanolbarth y De yn 2019, 54.5%, ac yn y Gogledd, 49%. Roedd y lefelau isaf yn y De-ddwyrain, 46.3%. Mae hyn yn dilyn yr un patrwm â'r flwyddyn flaenorol ac eithrio'r lefelau isaf yn y De-orllewin yn 2018.

Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002) Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

## Mynychu cerddoriaeth fyw arall yn ôl y Gymraeg

Mae mynychu cerddoriaeth fyw arall yn ôl gallu yn y Gymraeg yn dangos lefel uwch o fynychu ymhlith siaradwyr Cymraeg gyda bron 6 o bob 10, 59.4%, yn mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach o gymharu â 47.0% o'r di-Gymraeg yn 2019. Mae hyn yn dilyn tuedd debyg i'r blynyddoedd blaenorol er bod y bwllch mewn lefelau mynychu rhwng y ddau wedi tyfu o 3.1 pwynt canran i 12.4 pwynt canran.

## Dadansoddiad pellach o'r Gymraeg

Gan ganolbwyntio ar y dadansoddiad manylach o allu yn y Gymraeg y mae'n dangos bod rhagor o siaradwyr Cymraeg yn 2019 yn mynychu, ond y siaradwyr Cymraeg nad oeddynt yn rhugl oedd â lefelau mynychu uwch, 64.5% o gymharu â 54.3%.


Tabl 5: dadansoddiad pellach o allu yn y Gymraeg

|                              | 2019  | 2018  | 2017  |
|------------------------------|-------|-------|-------|
| Siaradwyr Cymraeg rhugl      | 54.3% | 47.4% | 47.3% |
| Ddim yn rhugl                | 64.5% | 50.4% | 54.0% |
| Di-Gymraeg                   | 47.0% | 49.0% | 42.0% |
| Siaradwyr Cymraeg (cyfanswm) | 59.4% | 46.0% | 51.2% |
| Cyfanswm                     | 49.9% | 49.0% | 51.2% |

## Mynychu carnifalau a chelfyddydau'r stryd

Yn 2019 lefelau mynychu i garnifalau a chelf stryd oedd yr uchaf yr oeddynt wedi bod dros y deng mlynedd diwethaf, gyda 46.2% yn mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Yn 2019 roedd lefelau 11 pwynt canran yn uwch nag yr oeddynt yn 2009.

### Mynychu carnifalau a chelfyddydau'r stryd (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: pob oedolyn (o leiaf 1,000 yn y don)

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru 2009-2019

## Mynychu carnifalau a chelfyddydau'r stryd yn ôl rhywedd

Mynychodd hanner y menywod garnifalau a chelfyddydau'r stryd yn 2019, 49.6%, o'i gymharu â 4 o bob 10 dyn, 42.5%

### Mynychu carnifalau a chelfyddydau stryd yn ôl rhywedd (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

## Mynychu carnifalau a chelfyddydau'r stryd yn ôl dosbarth cymdeithasol

Mynychodd dros 40% o'r grwpiau cymdeithasol uwch ac is garnifalau a chelfyddydau'r stryd yn 2019, gyda lefelau mynychu ychydig yn uwch ymhlith ABC1, 47.2%, o'i gymharu â 45% yn y grŵp C2DE.

Mynychu carnifalau a chelfyddydau'r stryd yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002) Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

## Mynychu carnifalau a chelfyddydau'r stryd yn ôl oed

Roedd y lefelau mynychu uchaf i garnifalau a chelfyddydau'r stryd yn 2019 ymhlith y grŵp oed 35-44 oed gyda bron 6 o bob 10, 58.5%, yn mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Roedd ychydig dros hanner o'r bobl 25-34 a 45-64 oed yn mynychu, 53.3% a 51.8%. Parhaodd y lefelau mynychu isaf i fod ymhlith y grŵp dros 65 oed gyda 30.9% yn mynychu yn 2019, cynnydd o 5.1 pwynt canran er 2018.

Tabl 6: mynychu carnifalau a chelfyddydau'r stryd yn ôl oed (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)


|       | 2019  | 2018  | 2017  |
|-------|-------|-------|-------|
| 16-24 | 41.8% | 47.2% | 44.6% |
| 25-34 | 53.3% | 52.4% | 40.4% |
| 35-44 | 58.5% | 49.9% | 52.1% |
| 45-64 | 51.8% | 42.4% | 38.7% |
| 65+   | 30.9% | 25.8% | 25.7% |



## Mynychu carnifalau a chelfyddydau'r stryd yn ôl rhanbarth

Y Gogledd oedd â'r lefelau mynychu uchaf yn 2019, gyda hanner yr oedolion, 51.2% yn mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Mae hyn wedi newid o'r De-orllewin a Chanolbarth y De yn y flwyddyn flaenorol, y ddau yn 42%.

### Mynychu carnifalau a chelfyddydau'r stryd yn ôl rhanbarth (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002) Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019


## Mynychu carnifalau a chelfyddydau'r stryd yn ôl y Gymraeg

Roedd oedolion a oedd â rhywfaint o allu yn y Gymraeg yn tueddu i fod â lefel ychydig yn uwch o fynychu i garnifalau a chelfyddydau'r stryd o gymharu â'r rhai heb allu yn y Gymraeg, 49.5% o gymharu â 45.1% yn 2019. Mae hyn yn newid o'r flwyddyn flaenorol pan oedd bwlch llai yn lefelau mynychu rhwng y Gymraeg a'r di-Gymraeg gydag ychydig rhagor o bobl ddi-Gymraeg yn mynychu, 41.9% o gymharu â 39.9%

## Dadansoddiad pellach o'r Gymraeg

Roedd gan y rhai nad oeddynt yn rhugl yn y Gymraeg lefelau uwch o fynychu carnifalau a chelfyddydau'r stryd yn 2019 o gymharu â'r rhai a oedd yn rhugl yn y Gymraeg, 44.1% o gymharu â 55%. Dyma'r un duedd â 2018 er bod y bwlch rhwng y ddau wedi lleihau o 23.9 pwynt canran i 10.9 pwynt canran yn 2019.

### Mynychu carnifalau a chelfyddydau'r stryd yn ôl gallu yn y Gymraeg (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

## Mynychu'r celfyddydau gweledol a/neu grefftau

Mae lefelau mynychu'r celfyddydau gweledol a chrefftau wedi aros yr un fath rhwng 2018 a 2019 gyda 38.4% yn mynychu yn y ddwy flynedd. Dyma'r lefelau mynychu uchaf dros y cyfnod o ddeng mlynedd.

### Mynychu'r celfyddydau gweledol a chrefftau (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (o leiaf 1000 y flwyddyn)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2009-2019

## Mynychu'r celfyddydau gweledol a/neu grefftau yn ôl rhywedd

Tabl 9: mynychu'r celfyddydau gweledol a/neu grefft yn ôl rhywedd7


|           | 2019 | 2018 | 2017 |
|-----------|------|------|------|
| Gwrywaidd | 34.3 | 35.5 | 32.2 |
| Benywaidd | 42.3 | 41.0 | 39.5 |

Arhosodd lefelau mynychu i'r celfyddydau gweledol a chrefftau yn sefydlog ar draws dynion a menywod, gyda mynychu menywod yn uwch na dynion. Yn 2019, mynychodd 42.3% o fenywod o gymharu â 34.3% o ddynion. Er bod y duedd wedi bod yn debyg dros y tair blynedd mae'r bwlch rhwng y ddau grŵp wedi cynyddu o 5.5 pwynt canran yn 2018 i 8 pwynt canran yn 2019.

## Mynychu'r celfyddydau gweledol a/neu grefftau yn ôl dosbarth cymdeithasol

Roedd lefelau mynychu uwch na'r cyfartaledd gan yr oedolion yn y grŵp ABC1, 47.2%, o gymharu â'r rhai yn y grŵp C2DE, 28.9%. Mae hyn yn dilyn tuedd y ddwy flynedd flaenorol.

Mynychu'r celfyddydau gweledol a chrefftau yn ôl dosbarth economaidd cymdeithasol (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002) Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

## Mynychu'r celfyddydau gweledol a/neu grefftau yn ôl rhanbarth

Canolbarth y De oedd â'r lefelau mynychu uchaf yn 2019 fel y gwnaeth yn ystod y ddwy flynedd flaenorol gyda 44.9% yn mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Y Gogledd oedd yr ail ardal uchaf yn 2019, gan gynyddu 10 pwynt canran i 43.6% yn 2019. Mae'r lefelau mynychu isaf wedi newid o'r De-orllewin yn 2017 a 2018 i'r De-ddwyrain yn 2019 a oedd â 31.2% o oedolion yn mynychu.

Mynychu'r celfyddydau gweledol a chrefftau yn ôl rhanbarth (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002) Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

## Mynychu'r celfyddydau gweledol a/neu grefftau yn ôl oed

Roedd y rhai 35-44 a 45-64 oed yn mynychu'r celfyddydau gweledol a chrefftau yn amlach yn 2019, gyda 47.1% a 41.1% yn mynychu. Gostyngodd y lefelau isaf yn y grwpiau ieuengaf gyda 30.1% o bobl ifanc 16-24 oed a 34.1% o rai 25-34 oed yn mynychu.

Mynychu'r celfyddydau gweledol a chrefftau yn ôl oed (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

## Mynychu'r celfyddydau gweledol a/neu grefftau yn ôl y Gymraeg

Roedd siaradwyr Cymraeg yn mynychu'n fwy na'r cyfartaledd, gyda 42.6% yn 2019 o gymharu â 37.1% o'r di-Gymraeg. Cynyddodd lefelau mynychu ymhlith y di-Gymraeg dros y tair blynedd o 32.2% yn 2017, ond roedd lleihad ymhlith siaradwyr Cymraeg o 47.4% yn 2017.

## Dadansoddiad pellach o'r Gymraeg

Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad pellach o allu yn y Gymraeg, gan ddangos bod gan siaradwyr Cymraeg nad oeddynt yn rhugl lefelau mynychu ychydig yn uwch yn 2019 gyda 43.6% o gymharu â 41.6% o siaradwyr Cymraeg rhugl.


Tabl 8: mynychu'r celfyddydau gweledol a chrefftau yn ôl gallu yn y Gymraeg (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)

|                                     | 2019  | 2018  | 2017  |
|-------------------------------------|-------|-------|-------|
| <i>Siaradwyr Cymraeg rhugl</i>      | 41.6% | 35.7% | 48.5% |
| <i>Ddim yn rhugl</i>                | 43.6% | 41.6% | 46.6% |
| <i>Di-Gymraeg</i>                   | 37.1% | 38.2% | 32.2% |
| <i>Siaradwyr Cymraeg (cyfanswm)</i> | 42.6% | 38.8% | 47.4% |
| <i>Cyfanswm</i>                     | 38.4% | 38.4% | 36.0% |

## Mynychu dramâu

Yn 2019 mynychodd ychydig dros draean, 35.8%, o oedolion ddrama unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Amrywia lefelau mynychu rhwng 33% a 35% er 2016. Wrth ystyried y tueddiadau dros y deng mlynedd, mae wedi cynyddu 12.5 pwynt canran.

### Mynychu dramâu (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: pob oedolyn (o leiaf 1000 y flwyddyn)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2009-2019

## Mynychu dramâu yn ôl rhywedd

Roedd mynychu'n uwch gan fenywod o gymharu â dynion yn 2019, ac mae hyn yn dilyn yr un duedd â'r ddwy flynedd flaenorol. Mynychodd 4 o bob 10 menyw o leiaf unwaith y flwyddyn, ond mynychodd ychydig dan draean o ddynion, 31.3%.

### Mynychu dramâu yn ôl rhywedd (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

## Mynychu dramâu yn ôl dosbarth cymdeithasol

Roedd mynychu dramâu yn uwch ymhlith y grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch, mynychodd 41.8% o'r grŵp ABC1 unwaith y flwyddyn o'i gymharu â 29.4% o'r C2DE.

Tabl 9: mynychu dramâu yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol

|  | 2019  | 2018  | 2017  |
|--|-------|-------|-------|
|  | 41.8% | 41.5% | 40.3% |
|  | 29.4% | 26.1% | 27.6% |


## Mynychu dramâu yn ôl oed

Roedd gan y rhai yn y grwpiau iau lefelau mynychu uwch i ddrama yn 2019, gyda 43.9% o'r grŵp 25-34 oed yn mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach ac yna 41.1% o'r grŵp 16-24 oed. Roedd y lefelau isaf ymhlith pobl dros 65 oed, gyda 29.3% yn mynychu.

Tabl 10: mynychu dramâu yn ôl oed

|         | 2019  | 2018  | 2017  |
|---------|-------|-------|-------|
| 16-24   | 41.1% | 33.1% | 35.0% |
| 25-34   | 43.9% | 34.8% | 38.8% |
| 35-44   | 39.4% | 36.2% | 42.2% |
| 45-64   | 32.9% | 35.2% | 31.4% |
| dros 65 | 29.3% | 30.0% | 28.6% |

Mynychu dramâu yn ôl oed yn 2019 (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)






## Mynychu dramâu yn ôl rhanbarth

Roedd mynychu drama'n weddol gyfartal ar draws y pedwar rhanbarth yn 2019 gyda'r lefelau uchaf yn y De-ddwyrain, 40.4% o oedolion, a'r tri rhanbarth arall â rhwng 33% a 38% o oedolion yn mynychu. Cynydda mynychu yn y De-ddwyrain 9.2 pwynt canran er 2017.

### Mynychu dramâu yn ôl rhanbarth (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

## Mynychu dramâu yn ôl y Gymraeg

Roedd siaradwyr Cymraeg yn tueddu i fod â lefelau uwch o fynychu drama na'r di-Gymraeg yn 2019, 42.3% o gymharu â 33.8% ac mae hyn yn dilyn yr un duedd â'r blynyddoedd blaenorol.

## Dadansoddiad pellach o'r Gymraeg

Roedd lefelau mynychu ychydig yn uwch o siaradwyr Cymraeg rhugl i'r drama, 44.6%, o gymharu â rhai nad oeddynt yn rhugl, 40% yn 2019. Mae hyn wedi newid o'r flwyddyn flaenorol pan fynychodd 37.2% o siaradwyr nad oeddynt yn rhugl o gymharu â 30.6% o siaradwyr Cymraeg rhugl.


Tabl 11: mynychu dramâu yn ôl gallu yn y Gymraeg (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)

|                                     | 2019  | 2018  | 2017  |
|-------------------------------------|-------|-------|-------|
| <i>Siaradwyr Cymraeg rhugl</i>      | 44.6% | 30.6% | 48.2% |
| <i>Ddim yn rhugl</i>                | 40.0% | 37.2% | 41.2% |
| <i>Di-Gymraeg</i>                   | 33.8% | 33.7% | 30.3% |
| <i>Siaradwyr Cymraeg (cyfanswm)</i> | 42.3% | 34.1% | 44.1% |
| <i>Cyfanswm</i>                     | 35.8% | 33.8% | 33.7% |

## Mynychu gwyliau celfyddydol

Roedd lefelau mynychu i wyliau celfyddydol yn 2019 ychydig dan chwarter, 23.6%, gan barhau â'r cynnydd graddol mewn lefelau mynychu er 2013 pan fynychodd 14.2% o oedolion unwaith y flwyddyn neu'n amlach.

### Mynychu gwyliau celfyddydol (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (o leiaf 1000 y flwyddyn)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2009-2019

## Mynychu gwyliau celfyddydol yn ôl rhywedd


Nid oedd unrhyw wahaniaeth yn lefelau mynychu i wyliau rhwng dynion a menywod yn 2019 gyda 23% yn mynychu o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae hyn ar gynnydd ychydig ers y blynyddoedd blaenorol.

Tabl 12: mynychu gwyliau celfyddydol yn ôl rhywedd (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)

|           | 2019  | 2018  | 2017  |
|-----------|-------|-------|-------|
| Gwrywaidd | 23.6% | 21.3% | 21.9% |
| Benywaidd | 23.7% | 22.5% | 21.0% |

## Mynychu gwyliau celfyddydol yn ôl dosbarth cymdeithasol

### Mynychu gwyliau celfyddydol yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Gan ganolbwyntio ar fynychu gwyliau celfyddydol yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol mae patrwm o lefelau mynychu llawer uwch ymhlith y grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch. Mae'r graff yn dangos bod dwbl y rhai yn y grŵp ABC1 a fynychwyd, 31.6%, o gymharu â 15.2% o'r grŵp C2DE. Mae hyn yn dilyn patrwm tebyg i'r ddwy flynedd flaenorol.


Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

## Mynychu gwyliau celfyddydol yn ôl oed

Mae'r lefelau mynychu uchaf i wyliau yn parhau i fod ymhlith y grŵp 16-24 oed, 35.1%, fel y digwyddodd yn 2018. Mae hyn yn newid er 2017 pan oedd gan y rhai 35-44 oed y lefelau uchaf. Ar draws y tair blynedd roedd y lefelau isaf ymhlith y bobl dros 65 oed gydag 14.6% yn mynychu yn 2019.

## Mynychu gwyliau celfyddydol yn ôl oed (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002) Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

## Mynychu gwyliau celfyddydol yn ôl rhanbarth

Y rhai sy'n byw yng Nghanolbarth y De oedd â'r lefelau mynychu mwyaf i wyliau celfyddydol yn 2019, gyda 28.7% yn ei wneud o leiaf unwaith y flwyddyn. Mynychodd tua chwarter o'r De-ddwyrain a'r Gogledd. Roedd y lefelau isaf yn y De-orllewin gydag 16.4% yn mynychu. Cafwyd hyd i'r lefelau mynychu uchaf hefyd yng Nghanolbarth y De yn 2018 ar ôl newid o'r Gogledd yn 2017.

## Mynychu gwyliau celfyddydol yn ôl rhanbarth (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002) Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019


## Mynychu gwyliau celfyddydol yn ôl y Gymraeg

Roedd gan siaradwyr Cymraeg lefel uwch o fynychu gwyliau celfyddydol yn 2019, gyda 36.2% yn mynychu o gymharu ag 19.8% o'r di-Gymraeg yn mynychu, gwahaniaeth o 16.4 pwynt canran. Mae'r bwllch rhwng y ddau grŵp wedi cynyddu o'r flwyddyn flaenorol pan oedd yn 3 pwynt canran.

## Dadansoddiad pellach o'r Gymraeg

Roedd ychydig o wahaniaeth yn nifer y bobl sy'n mynychu o ran gallu yn y Gymraeg, gyda 37.7% o'r rhai a oedd yn rhugl yn y Gymraeg yn mynychu yn 2019 o gymharu â 34.7% o siaradwyr nad oeddynt yn rhugl. Yn ystod y ddwy flynedd flaenorol roedd lefelau mynychu ychydig yn uwch ymhlith y siaradwyr Cymraeg nad oeddynt yn rhugl.

Mynychu gwyliau celfyddydol yn ôl gallu yn y Gymraeg (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

## Cerddoriaeth werin, y byd a thraddodiadol

Mynychodd 14.1% o oedolion gerddoriaeth werin, y byd a thraddodiadol yn 2019 ac mae hyn yn parhau â'r cynnydd graddol mewn lefelau er 2017, pan fynychodd 11.3%.

Mynychu cerddoriaeth werin/draddodiadol/y byd (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (o leiaf 1000 y flwyddyn)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2009-2019

## Mynychu cerddoriaeth werin, y byd a thraddodiadol yn ôl rhywedd

Cafwyd lefelau mynychu ychydig yn uwch gan ddynion yn 2019, 14.8%, o gymharu â menywod, 13.5%, i gerddoriaeth werin, y byd a thraddodiadol. Mae hyn yn dilyn yr un patrwm â'r ddwy flynedd flaenorol.

Tabl 13: mynychu cerddoriaeth werin, y byd a thraddodiadol (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)


|           | 2019  | 2018  | 2017  |
|-----------|-------|-------|-------|
| Gwrywaidd | 14.8% | 14.4% | 11.8% |
| Benywaidd | 13.5% | 10.6% | 10.8% |

## Mynychu cerddoriaeth werin, y byd a thraddodiadol yn ôl dosbarth cymdeithasol

Mae cyfraddau mynychu uwch ymhlith y grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch gydag 17.5% o'r grŵp ABC1 yn mynychu o'i gymharu â 10.4% o'r grŵp C2DE sy'n duedd debyg i'r flwyddyn flaenorol.




Mynychu cerddoriaeth werin/draddodiadol/y byd yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002) Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

Mynychu cerddoriaeth werin, y byd a thraddodiadol yn ôl oed

Mynychu cerddoriaeth werin/draddodiadol/y byd yn ôl oed (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Roedd y lefelau mynychu uchaf i gerddoriaeth werin, y byd a thraddodiadol ymhlith y grŵp 25-44 oed yn 2019. Mynychodd 16.4% o'r rhai 25-34 oed unwaith y flwyddyn neu'n amlach, ac yna 15.7% o'r grŵp 35-44 oed yn 2019. Yn y flwyddyn flaenorol roedd y lefelau uchaf hefyd ymhlith y grŵp 25-34 oed, 16.2%, ond ac yna'r bobl 45-64 oed, 15.2%. Roedd y lefelau isaf yn 2019 ymhlith y grŵp ieuengaf gyda 12.9% o'r bobl ifanc 16-24 oed yn mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach.

Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002) Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

## Mynychu cerddoriaeth werin, y byd a thraddodiadol yn ôl rhanbarth

Nid oedd unrhyw wahaniaeth mawr yn lefelau mynychu ar draws y rhanbarthau yn 2019. Roedd y lefelau uchaf yn y Gogledd gydag 16% yn mynychu o leiaf unwaith y flwyddyn ond wedi'i ddilyn yn agos gan Ganolbarth y De ar 15.4% ac yna'r De-ddwyrain ar 14%. Roedd y lefelau isaf yn y De-orllewin, ar 11.4%. Yn 2018 roedd y lefelau uchaf yn y De-ddwyrain, gydag 14% yn mynychu o leiaf unwaith y flwyddyn.

### Mynychu cerddoriaeth werin/draddodiadol/y byd yn ôl rhanbarth (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

## Mynychu cerddoriaeth werin, y byd a thraddodiadol yn ôl y Gymraeg

Roedd bron dwbl cyfran y siaradwyr Cymraeg, 21.9%, yn mynychu cerddoriaeth werin, y byd a thraddodiadol yn 2019 o gymharu â'r di-Gymraeg, 11.7%. Mae'r bwlch rhwng y ddau grŵp wedi lledu i 10.2 pwynt canran o 4.4 pwynt canran yn y flwyddyn flaenorol.


Tabl 14: mynychu cerddoriaeth werin, y byd a thraddodiadol yn ôl gallu yn y Gymraeg (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)

|                   | 2019  | 2018  | 2017  |
|-------------------|-------|-------|-------|
| Siaradwyr Cymraeg | 21.9% | 15.8% | 16.6% |
| Di-Gymraeg        | 11.7% | 11.4% | 9.5%  |

## Dadansoddiad pellach o'r Gymraeg

Yn 2019, mynychodd chwarter y rhai a oedd yn rhugl yn y Gymraeg, 24.9%, unwaith y flwyddyn neu'n amlach, o gymharu â 18.9% o'r rhai a oedd â rhyw lefel o allu yn y Gymraeg ond nad oeddynt yn rhugl. Yn ystod y ddwy flynedd flaenorol roedd lefelau mynychu uwch ymhlith y siaradwyr Cymraeg nad oeddynt yn rhugl.

Mynychu cerddoriaeth werin/draddodiadol/y byd yn ôl gallu yn y Gymraeg (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

## Mynychu cerddoriaeth glasurol

Mynychodd 13.9% o oedolion gerddoriaeth glasurol yn 2019, gan wrthdroi gostyngiad y flwyddyn flaenorol pan fynychodd 12%, gan ddod â cherddoriaeth glasurol yn ôl at lefelau 2017.

Mynychu cerddoriaeth glasurol (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (o leiaf 1000 y flwyddyn)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2009-2019

## Mynychu cerddoriaeth glasurol yn ôl rhywedd

Cofnodwyd lefelau uwch o fynychu i gerddoriaeth glasurol ymhlith menywod, 15.8%, na dynion, 11.8%, yn 2019 gyda'r bwlch rhwng y ddau'n lledu o'r ddwy flynedd flaenorol.

Tabl 15 cerddoriaeth glasurol (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)


|           | 2019  | 2018  | 2017  |
|-----------|-------|-------|-------|
| Gwrywaidd | 11.8% | 11.8% | 13.5% |
| Benywaidd | 15.8% | 12.8% | 12.9% |

## Mynychu cerddoriaeth glasurol yn ôl dosbarth cymdeithasol

Mynychu cerddoriaeth glasurol (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)

Roedd gan y rhai yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch lefelau mynychu uwch, 17.7% yn y grŵp ABC1 o'i gymharu â 9.7% yn y grŵp C2DE, sy'n golygu bod y bwlch rhwng y ddau wedi lleihau ychydig o 10.2 pwynt canran i 8 pwynt canran.

Mynychu cerddoriaeth glasurol yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

## Mynychu cerddoriaeth glasurol yn ôl oed

Y rhai yn y grwpiau hŷn oedd y rhai a fynychodd gerddoriaeth glasurol amlaf yn 2019, bron 2 o bob 10, (18.4%) o'r rhai dros 65 oed ac 14.6% o'r rhai 45-64 oed a fynychodd o leiaf unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Mae'r grŵp oed sydd â'r mynychwyr mwyaf wedi amrywio dros y tair blynedd diwethaf gyda 18.3% ymhlith y rhai 25-34 oed yn 2018 ac 16.9% ymhlith y rhai 35-44 oed yn 2017. Y rhai 25-34 oed yn 2019 oedd â'r lefelau mynychu isaf, 8.5%.

## Mynychu cerddoriaeth glasurol yn ôl oed (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002) Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

## Mynychu cerddoriaeth glasurol yn ôl rhanbarth

Dim ond ychydig oedd yr amrywiadau rhwng rhanbarthau yn 2019 gyda'r lefelau uchaf o 15.7% yng Nghanolbarth y De. Dilynwyd hyn yn agos iawn gan 14.6% yn y Gogledd, 13.3% yn y De-ddwyrain ac 11.7% yn y De-orllewin.

## Mynychu cerddoriaeth glasurol yn ôl rhanbarth (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)  
Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019


## Mynychu cerddoriaeth glasurol yn ôl y Gymraeg

Roedd lefelau uwch o fynychu i gerddoriaeth glasurol yn 2019 gan y rhai oedd yn siarad Cymraeg, 17.9%, o gymharu â'r rhai nad oeddynt, 12.6%. Mae hyn yn dychwelyd i batrwm 2017, pan oedd bwlch tebyg rhwng y ddau grŵp, 17.1% o siaradwyr Cymraeg o'i gymharu ag 11.9% o'r di-Gymraeg. Yn 2018 lleihaodd y bwlch gydag 13.4% o'r rhai a allai siarad Cymraeg o ran mynychu cerddoriaeth glasurol o gymharu ag 11.7% o'r rhai nad oeddynt yn siarad Cymraeg.

## Dadansoddiad pellach o'r Gymraeg

Mae dadansoddiad pellach o allu yn y Gymraeg yn dangos bod gan y rhai a oedd yn siarad Cymraeg rhugl lefelau mynychu uwch i gerddoriaeth glasurol ar draws y tair blynedd o gymharu â'r rhai nad oeddynt yn siarad Cymraeg. Ehangodd y bwlch rhwng y ddau grŵp yn 2018 a pharhaodd i gynyddu yn 2019.

### Mynychu cerddoriaeth glasurol yn ôl gallu yn y Gymraeg (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

## Mynychu jas

Mynychodd un o bob deg oedolyn jas yn 2019, cynnydd graddol mewn lefelau mynychu er 2015 pan fynychodd 7% unwaith y flwyddyn neu'n amlach.

### Mynychu jas (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (o leiaf 1000 y flwyddyn)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2009-2019

## Mynychu jas yn ôl rhywedd

Mae dynion yn parhau i fynychu jas yn fwy, 12.5%, na menywod, 7.7%, yn 2019 ac mae hyn yn digwydd er 2017. Mae lefelau ar draws y tair blynedd wedi aros yn sefydlog ar gyfer y ddau grŵp.

Tabl 16: mynychu jas yn ôl rhywedd (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)


|                  | 2019         | 2018         | 2017         |
|------------------|--------------|--------------|--------------|
| <b>Gwrywaidd</b> | <b>12.5%</b> | <b>11.2%</b> | <b>10.7%</b> |
| <b>Benywaidd</b> | <b>7.7%</b>  | <b>7.4%</b>  | <b>7.1%</b>  |



## Mynychu jas yn ôl dosbarth cymdeithasol

Dros y tair blynedd roedd mynychu'n amlach i jas gan y rhai yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch, er bod y bwlch rhwng y ddau wedi gostwng o bron 7 pwynt canran yn 2017 a 2018 i bron 5 pwynt canran yn 2019. Yn 2019 mynychodd 12.3% o'r rhai yn y grŵp ABC1 jas unwaith y flwyddyn neu'n amlach o gymharu â 7.6% yn y grŵp C2DE.

Mynychu jas yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

## Mynychu jas yn ôl oed

Mae data 2019 yn dangos bod mynychu jas yn gostwng gydag oed gyda'r rhai yn y grŵp ieuengaf, pobl ifanc 16-24 oed, â'r lefelau mynychu uchaf, 14.6%, a'r rhai yn y grwpiau hŷn â'r isaf, 7%, ymhlith y rhai 45-64 oed a 9.1% ymhlith y grŵp dros 65 oed.

Mynychu jas yn ôl oed (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019


Tabl 17: mynychu jas yn ôl oed (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)

| Oed     | 2019  | 2018  | 2017  |
|---------|-------|-------|-------|
| 16-24   | 14.6% | 9.8%  | 5.9%  |
| 25-34   | 11.8% | 8.2%  | 6.3%  |
| 35-44   | 11.7% | 7.9%  | 10.6% |
| 45-64   | 7.0%  | 8.2%  | 11.1% |
| dros 65 | 9.1%  | 11.6% | 8.3%  |

## Mynychu jas yn ôl rhanbarth

Y De-ddwyrain oedd â'r lefelau mynychu uchaf i jas yn 2019 gyda 15.3% yn mynychu o leiaf unwaith y flwyddyn o gymharu â'r Gogledd gyda'r lefelau isaf o 6.2%. Mae'n batrwm ychydig yn wahanol i'r ddwy flynedd flaenorol pan oedd gan Ganolbarth y De y lefelau mynychu uchaf.

Mynychu jas yn ôl rhanbarth (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002) Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019


## Mynychu jas yn ôl y Gymraeg

Ychydig iawn o wahaniaeth oedd yn lefelau mynychu ymhlith siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg i jas yn 2019, gydag 1 o bob 10 (10.3% a 9.9%) o'r ddau grŵp yn mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach.

## Dadansoddiad pellach o'r Gymraeg

Mae'r dadansoddiad o ddata Cymraeg yn dangos bod gan y siaradwyr Cymraeg nad oeddynt yn rhugl, 13.7%, lefelau mynychu ychydig yn uwch i jas dros y tair blynedd o gymharu â'r siaradwyr Cymraeg rhugl, 7%.

Mynychu jas yn ôl gallu yn y Gymraeg (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

## Mynychu digwyddiadau llenyddol

Mae mynychu digwyddiadau llenyddol yn cynyddu'n gyson er 2013 o 6.4% i 12.4% yn 2019, cynnydd o 6 phwynt canran.

Mynychu digwyddiadau llenyddol (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (o leiaf 1000 y flwyddyn)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2009-2019

## Mynychu digwyddiadau llenyddol yn ôl rhywedd


Yn 2019 nid oedd llawer o wahaniaeth mewn mynychu digwyddiadau llenyddol yn ôl rhywedd gyda 12.9% o fenywod yn mynychu o gymharu ag 11.8% o ddynion. Mae'r bwlch rhwng y ddau wedi lleihau o 4.8% yn 2017 a 4.9% yn 2018.

Tabl 20: mynychu digwyddiadau llenyddol (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)<sup>18</sup>

|           | 2019  | 2018  | 2017  |
|-----------|-------|-------|-------|
| Gwrywaidd | 11.8% | 8.5%  | 10.2% |
| Benywaidd | 12.9% | 13.4% | 15.0% |

## Mynychu digwyddiadau llenyddol yn ôl dosbarth cymdeithasol

Mynychu digwyddiadau llenyddol yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Mae lefelau uwch o fynychu i ddigwyddiadau llenyddol gan y rhai yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch dros y tair blynedd. Yn 2019 mynychodd 15.6% o'r grŵp ABC1 o gymharu â 9% o'r grŵp C2DE.

Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)  
Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

## Mynychu digwyddiadau llenyddol yn ôl oed


Y rhai yn y grŵp 35-44 oed oedd â'r lefelau mynychu uchaf i ddigwyddiadau llenyddol yn 2019, gydag un rhan o bump, 20.6%, yn mynychu digwyddiadau llenyddol unwaith y flwyddyn neu'n amlach, wedi'i ddilyn yn agos gan 17.2% yn y grŵp 25-34 oed. Roedd y lefelau mynychu isaf ymhlith y grwpiau hynaf dros 65 oed, gyda 7.5% yn mynychu.

Tabl 21: mynychu digwyddiadau llenyddol yn ôl oed (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)19

| Oed     | 2019  | 2018  | 2017  |
|---------|-------|-------|-------|
| 16-24   | 10.3% | 10.5% | 12.8% |
| 25-34   | 17.2% | 23.5% | 16.1% |
| 35-44   | 20.6% | 7.6%  | 27.4% |
| 45-64   | 11.2% | 8.3%  | 10.4% |
| dros 65 | 7.5%  | 8.1%  | 5.8%  |

## Mynychu digwyddiadau llenyddol yn ôl rhanbarth

### Mynychu digwyddiadau llenyddol yn ôl rhanbarth (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Canolbarth y De sy'n parhau i fod â'r lefelau mynychu uchaf i ddigwyddiadau llenyddol yn 2019, fel yr oedd yn ystod y ddwy flynedd flaenorol, gyda 15.7% yn mynychu o leiaf unwaith y flwyddyn. Newidiodd y lefelau mynychu isaf i fod yn y Gogledd yn 2017, 9.2%, a 2018, 7.6%, i fod yn y De-orllewin yn 2019, gyda 7.6% yn mynychu o leiaf unwaith y flwyddyn.

Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002) Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019


## Mynychu digwyddiadau llenyddol yn ôl y Gymraeg

Nid oedd llawer o wahaniaeth yn lefelau mynychu rhwng siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg yn 2019 gydag 13.9% o'r rhai sy'n siarad Cymraeg yn mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach o gymharu â 12% o'r di-Gymraeg. Yn y flwyddyn flaenorol roedd ychydig rhagor o bobl ddi-Gymraeg yn mynychu, 13.6% o gymharu â 10.2% o siaradwyr Cymraeg. Unwaith eto, dim ond gwahaniaeth bach oedd rhwng y ddau o 3.4 pwynt canran. Ond yn 2017 roedd gwahaniaeth llawer mwy rhwng y ddau grŵp gyda bwlch o 10 pwynt canran, roedd 20.2% o siaradwyr Cymraeg yn mynychu o gymharu â 10.2% o'r di-Gymraeg.

## Dadansoddiad pellach o'r Gymraeg

Gwelwyd lefelau mynychu uwch ymhlith y rhai a oedd yn siarad Cymraeg rhugl yn 2019, 16.3% o gymharu â siaradwyr Cymraeg nad oeddynt yn rhugl, 11.4%.

### Mynychu digwyddiadau llenyddol yn ôl y Gymraeg (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)


Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019



## Mynychu dawns gyfoes

Mynychodd 8.6% o oedolion ddawns gyfoes yn 2019, cynnydd o bron 1% ers y flwyddyn flaenorol a chynnydd cyson er 2012 pan oedd y lefelau'n 6.4%.

### Mynychu dawns gyfoes (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (o leiaf 1000 y flwyddyn)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2009-2019

## Mynychu dawns gyfoes yn ôl rhywedd


Yn 2019 mynychodd un o bob deg menyw ddawns gyfoes yn 2019, a oedd yn uwch na dynion, gyda 7.2% yn mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Roedd rhagor o fenywod na dynion yn mynychu yn ystod y ddwy flynedd flaenorol hefyd.

Tabl 20: mynychu dawns gyfoes (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)

|           | 2019  | 2018 | 2017 |
|-----------|-------|------|------|
| Gwrywaidd | 7.2%  | 7.1% | 5.0% |
| Benywaidd | 10.0% | 8.3% | 9.3% |

## Mynychu dawns gyfoes yn ôl dosbarth cymdeithasol

Mynychu dawns gyfoes yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Mae'r tair blynedd yn dangos y bu lefelau uwch o fynychu dawns gyfoes ymhlith y grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch, gyda 10.9% o oedolion yn y grŵp ABC1 yn mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach o gymharu â 6.2% o'r grŵp C2DE. Arhosodd mynychu ymhlith C2DE yn 6% ym mhob un o'r tair blynedd.

Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)


Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

## Mynychu dawns gyfoes yn ôl oed

Mynychu dawns gyfoes yn ôl oed (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)

Y mynychwyr mwyaf i ddawns gyfoes yn 2019 oedd y rhai yn y grŵp 35-44 oed, 12%, a'r grŵp 45-64 oed, 10.3%.

Mynychu dawns gyfoes yn ôl oed (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

## Mynychu dawns gyfoes yn ôl rhanbarth

Mynychu dawns gyfoes yn ôl rhanbarth (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Y De-orllewin oedd â'r lefelau mynychu uchaf i ddawns gyfoes yn 2019, 10.2%, gyda'r lefelau mynychu isaf yn y Gogledd, 7.6%. Yn ystod y ddwy flynedd flaenorol, y Gogledd oedd â'r lefelau mynychu uchaf.

Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)  
Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019


## Mynychu dawns gyfoes yn ôl y Gymraeg

Mynychodd cyfran ychydig yn uwch o'r rhai a siaradai Gymraeg yn 2019, 10.4%, o gymharu ag 8.1% o'r di-Gymraeg.

## Dadansoddiad pellach o'r Gymraeg

Yn 2019 roedd lefelau mynychu ychydig yn uwch ymhlith siaradwyr Cymraeg rhugl, 11.4%, o gymharu â 9.4% o siaradwyr nad oeddynt yn rhugl. Mae hyn yn newid o'r ddwy flynedd flaenorol pan oedd lefelau ychydig yn uwch ymhlith y siaradwyr Cymraeg nad oeddynt yn rhugl.

Mynychu dawns gyfoes yn ôl gallu yn y Gymraeg (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

## Mynychu'r opera

Mae lefelau mynychu i opera wedi aros yn weddol sefydlog dros y 5 mlynedd diwethaf gan amrywio rhwng 5% a 6% o oedolion a oedd yn mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Yn 2019 roedd lefelau mynychu yn 6.1%

### Mynychu'r opera (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (o leiaf 1000 y flwyddyn)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2009-2019

## Mynychu'r opera yn ôl rhywedd

Fel gyda'r blynyddoedd blaenorol roedd lefelau mynychu ychydig yn uwch ymhlith menywod yn 2019, 6.9% o gymharu â dynion, 5.3%.


Tabl 21: mynychu'r opera yn ôl rhywedd (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)

|                  | 2019 | 2018 | 2017 |
|------------------|------|------|------|
| <i>Gwrywaidd</i> | 5.3% | 4.6% | 5.3% |
| <i>Benywaidd</i> | 6.9% | 5.5% | 7.0% |

## Mynychu'r opera yn ôl dosbarth cymdeithasol

Yn ystod y tair blynedd 2017-2019 roedd cyfrannau uwch yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch a oedd yn mynychu'r opera yn 2019, mynychodd 9.5% o'r rhai ABC1 o gymharu â 2.5% o'r rhai C2DE.

### Mynychu'r opera yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: pob oedolyn (o leiaf 1000 y flwyddyn)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2009-2019

### Mynychu'r opera yn ôl oed

Cynyddodd mynychu'r opera gydag oed yn 2019, gyda 3.9% o'r rhai 25-34 oed a 4.1% o'r rhai 16-24 oed yn mynychu o leiaf unwaith y flwyddyn neu'n amlach hyd at 7.3% o'r rhai 35-44 oed a 10.3% o'r rhai dros 65 oed.

### Mynychu'r opera yn ôl oed (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




sail: pob oedolyn (o leiaf 1000 y flwyddyn)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2009-2019

## Mynychu'r opera yn ôl rhanbarth

Roedd lledaeniad mynychu'r opera ar draws y rhanbarthau yn weddol hyd yn oed yn 2019 gyda lefelau uwch o fynychu yng Nghanolbarth y De, 7.4%, ac yna, rhanbarth y De-ddwyrain, 6% a 5% yn y Gogledd a'r De-orllewin. Ar draws y tair blynedd gwelwyd y lefelau uchaf yng Nghanolbarth y De.

### Mynychu'r opera yn ôl rhanbarth (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (o leiaf 1000 y flwyddyn)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2009-2019


## Mynychu'r opera yn ôl y Gymraeg

Roedd lefelau mynychu uwch â'r rhai a siaradai Gymraeg yn 2019, 9.1% o gymharu â'r di-Gymraeg, 5.2%.

## Dadansoddiad pellach o'r Gymraeg

Roedd mynychu uwch ymhlith y rhai nad oeddynt yn rhugl yn y Gymraeg yn 2019, 10.6%, o gymharu â siaradwyr rhugl, 7.5%. Mae hyn yn newid o'r ddwy flynedd flaenorol pan oedd mynychu amlach ymhlith y siaradwyr Cymraeg rhugl.

Mynychu'r opera yn ôl gallu yn y Gymraeg (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (o leiaf 1000 y flwyddyn)


Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2009-2019



## Mynychu'r bale

Ar ôl i lefelau mynychu'r bale gyrraedd 6% yn 2017, bu gostyngiad i 4.5% yn 2018 ac roedd yn 2019 gynnydd bach, 5.5%.

Mynychu'r bale (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (o leiaf 1000 y flwyddyn)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2009-2019

## Mynychu'r bale yn ôl rhywedd

Mynychodd rhagor o fenywod, 7.5%, na dynion, 3.4%, y bale yn 2019 ac mae'r patrwm yn ymestyn dros y tair blynedd o 2017.


Tabl 24: mynychu'r bale yn ôl rhywedd (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)<sup>22</sup>

|           | 2019 | 2018 | 2017 |
|-----------|------|------|------|
| Gwrywaidd | 3.4% | 1.5% | 3.6% |
| Benywaidd | 7.5% | 7.4% | 8.2% |

## Mynychu'r bale yn ôl dosbarth cymdeithasol

Bu lefelau uwch o fynychu i'r bale gan y rhai yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch dros y tair blynedd. Yn 2019, mynychodd 7.8% o'r rhai yn y grŵp ABC1 o gymharu â 3.1% o'r grŵp C2DE.

## Mynychu'r bale yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: pob oedolyn (o leiaf 1000 y flwyddyn)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2009-2019

## Mynychu'r bale yn ôl oed

Roedd y grwpiau canol oed yn tueddu i fod â lefelau uwch o fynychu'r bale yn 2019, roedd 7.7% o rai 35-44 oed yn mynychu o leiaf unwaith y flwyddyn neu'n amlach o gymharu â 2.2% o rai 25-34 oed yn 2019.

### Mynychu'r bale yn ôl oed (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: pob oedolyn (o leiaf 1000 y flwyddyn)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2009-2019

## Mynychu'r bale yn ôl rhanbarth

Yn 2019 y Gogledd oedd â'r lefelau mynychu uchaf, 7.3%, a'r De-ddwyrain oedd â'r isaf, ar 3.2%. Yn y flwyddyn flaenorol, Canolbarth y De oedd â'r lefelau uchaf, 7.6% a'r De-ddwyrain gyda'r isaf, 2.5%.

Mynychu'r bale yn ôl rhanbarth (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (o leiaf 1000 y flwyddyn)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2009-2019


## Mynychu'r bale yn ôl y Gymraeg

Mynychodd cyfran uwch o'r rhai oedd yn gallu siarad Cymraeg y bale yn 2019, 7.2% o gymharu â 5% o'r di-Gymraeg. Yn y flwyddyn flaenorol roedd bwlch mwy hyd yn oed rhwng y ddau grŵp, 3.4% o siaradwyr Cymraeg o gymharu â 4.9% o'r di-Gymraeg.

## Dadansoddiad pellach o'r Gymraeg

O'r rhai a allai siarad Cymraeg yn 2019, y siaradwyr Cymraeg nad oeddynt yn rhugl oedd â'r lefelau mynychu uwch, 9.4% o gymharu â 5.1% o siaradwyr Cymraeg rhugl.

Mynychu'r bale yn ôl gallu yn y Gymraeg (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (o leiaf 1000 y flwyddyn)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2009-2019

## Atodiad 1 – Diffiniadau o safleoedd economaidd-gymdeithasol

Gellir rhannu'r boblogaeth yn chwe grŵp economaidd-gymdeithasol neu safle cymdeithasol, seiliedig ar swydd prif enillydd cyflog y tŷ. Rhanna pawb arall yn y tŷ yr un safle â'r prif enillydd. I hwyluso dadansoddi, grwpir y tri grŵp cyntaf yn ABC1au ac C2DEau sef dosbarth canol a dosbarth gweithiol:

- A “Dosbarth canol uwch” - swydd rheoli, gweinyddu a phroffesiynol uwch e.e. prif weithredwr, cyfarwyddwr cwmni, gwas sifil uwch, meddyg, barnwr, bargyfreithiwr, cyfrifydd gweithredol
- B “Dosbarth canol” - swydd rheoli, gweinyddu a phroffesiynol uwch a chanolig e.e. athro ysgol uwchradd, llyfrgellydd, rhaglennwr cyfrifiaduron, swyddog prawf, gweithydd cymdeithasol
- C1 “Dosbarth canol is” - swydd arolygu, clerigol, isreoli e.e. gweithiwr swyddfa/clerigol, arolygydd ffatri, clercc banc, gwerthwr, myfyriwr

**ABC1au** –  
proffesiynol,  
cymwys a swyddi  
lle na wneir  
gwaith â llaw

- C2 “Dosbarth gweithiol medrus” - gweithiwr medrus â llaw e.e. Trydanwr, saer coed, ymladdwr tân, fforman
- D “Dosbarth gweithiol” - gweithiwr â llaw sy'n lled-fedrus a di-grefft e.e. gweithiwr mewn siop, gweithiwr ffatri, casglwr sbwriel, negesydd, staff bar
- E Y rhai sy'n llwyr ddibynnol ar fudd-daliadau'r wladwriaeth gan gynnwys y rhai di-waith hir dymor a phensiynwyr heb bensiynau preifat. Gweithwyr dros dro

**C2DEau** –  
medrus, lledfedrus  
a gweithwyr llaw  
di-grefft a phobl na  
weithiant

## Atodiad 2 – Cwestiynau Arolwg 2019

Cwestiwn 1 Darllenaf yn uchel restr o weithgareddau - pa mor aml ydych chi'n cymryd rhan ynddyn nhw neu fynd iddyn nhw?

Defnyddiwch y cerdyn i'ch helpu gyda'ch ateb.

DARLLENWCH YN UCHEL

..... a) Mynd i'r sinema i weld ffilm?

Unwaith yr wythnos neu'n amlach

2/3 gwaith y mis

Unwaith y mis

Unwaith bob 2/3 mis

2/3 gwaith y flwyddyn

Unwaith y flwyddyn

Llai aml

Byth

Ni wn

Ailadroddwch am:

Sioe Gerdd

Opera

Bale

Dawns gyfoes

Dramâu

Cerddoriaeth glasurol

Jas

Cerddoriaeth werin, draddodiadol a'r byd

Cerddoriaeth fyw arall

Arddangosfeydd Celf/chreft

Digwyddiadau llenyddol

Carnifal a chelfyddydau'r stryd

Gwyliau celfyddydol

Dangoswch gerdyn A eto

Cwestiwn 2 Yn eich amser hamdden, pa mor aml ydych yn cymryd rhan yn y gweithgareddau a ddarllenaf yn uchel?

Mae 'cymryd rhan' yn meddwl yn y tŷ, mewn dosbarthiadau, ymarferion, sioeau neu weithdai, ond nid yn rhan o'ch swydd neu'ch addysg amser llawn.

Darllenwch yn uchel

..... a) Cerdd o unrhyw fath gan gynnwys canu offeryn, canu, rhoi help llaw mewn côr, cymdeithas operatig, band pres, cerddorfa, grŵp gwerin/roc/jas.

Unwaith yr wythnos neu'n amlach

2/3 gwaith y mis

Unwaith y mis

Unwaith bob 2/3 mis

2/3 gwaith y flwyddyn

Unwaith y flwyddyn

Llai aml

Byth

Ni wn

Ailadroddwch am:

Drama neu theatr o unrhyw fath.

Dawns o unrhyw fath.

*Gwneud ffilm a fideo, neu ffotograffiaeth ar wahân i luniau o'r teulu, gwyliau neu bartïon.*

Celfyddydau gweledol a chrefftau, er enghraifft peintio, braslunio, graffeg gyfrifiadurol, crochenwaith, turnio, gwneud gemwaith, gwehyddu, tecstilau, gwau neu wniö.

Ysgrifennu creadigol, er enghraifft barddoniaeth neu straeon.

y celfyddydau digidol: creu a gwneud celf gan ddefnyddio technoleg ddigidol e.e.

lanlwytho, creu neu ailgymysgu cynnwys artistig (e.e. ar YouTube, Fflicr, ac ati.)